Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Disgrifiad Swydd: Technegydd Labordy (Ymchwil)

| | |
|---|---|
| **Coleg/Ysgol:** | Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Teitl y Swydd:** | Technegydd Labordy (Ymchwil) |
| **Adran/Pwnc:** | Gwyddor Fiofeddygol - Grŵp Imiwnoleg |
| **Cyflog:** | Gradd 5 £25,138 - £27,979 y flwyddyn ynghyd â buddion pensiwn NEST |
| **Oriau gwaith:** | 35 awr yr wythnos |
| **Contract:** | Penodiad am gyfnod penodedig yw hwn, tan 30 Medi 2025 |
| **Lleoliad:** | Lleolir y swydd hon ar Gampws Singleton, Prifysgol Abertawe |

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | Mae angen gweithlu gwasanaethau proffesiynol ar Brifysgol Abertawe sydd â'r sgiliau amrywiol i sicrhau y gall gyflawni rhagoriaeth drwy systemau a phrosesau effeithlon ac effeithiol sy'n manteisio ar ddatblygiadau technolegol. |
| **Gwybodaeth gefndirol** | Gwahoddir ceisiadau am swydd technegydd ymchwil i ymuno â'r grŵp imiwnoleg yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe. Mae Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe ymysg y 5 uchaf am ansawdd ymchwil (REF2021) ac yn rheolaidd ymysg y 5 ysgol feddygaeth orau yn y DU mewn tablau cynghrair. Rydym yn addysgu ac yn hyfforddi meddygon a gwyddonwyr bywyd y dyfodol, gan gynnig ymagwedd ryngddisgyblaethol at feddygaeth drosiadol. Bydd deiliad y swydd yn cefnogi gweithgareddau ymchwil sy'n rhan o gynllun cyllido NERC 'Strategaethau Aer Glân i'r Dyfodol', drwy'r prosiect *Cysylltu senarios defnyddio amgylchedd mewn beichiogrwydd/babandod a'r cysylltiad â deunyddiau yn yr awyr â chanlyniadau i iechyd plant* (RESPIRE). Bydd yn ymuno â grŵp ymchwil bywiog sy'n ymchwilio i'r berthynas rhwng cysylltiadau menywod beichiog â llygredd aer a rhaglennu datblygiadau organau a chlefydau diweddarach yn ystod plentyndod. Bydd yn cefnogi'r agenda ymchwil hon ac yn gwella gallu ymchwil y grŵp imiwnoleg ehangach ym Mhrifysgol Abertawe, a hynny'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.<br><br>Caiff yr ymgeisydd llwyddiannus ei annog a'i gefnogi i fanteisio ar gyfleoedd datblygu gyrfa.<br><br>Mae Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe yn darparu ymagwedd ryngddisgyblaethol, gan addysgu a hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o feddygon, gwyddonwyr bywyd a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae'n cydweithredu â'r GIG, busnesau a'r trydydd sector mewn ysbryd o arloesi agored ac mae wedi ei sefydlu ei hun fel lle o'r radd flaenaf i ddysgu, ymchwilio ac arloesi. |
| **Prif Ddiben y Swydd** | 1. Rhoi cymorth ar gyfer dadansoddiadau arferol o samplau yn y labordy gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau (e.e. ELISA, imiwnoblotio, sytometreg llif)<br>2. Rhoi cymorth yn y labordy ar gyfer astudiaethau trosiadol parhaus.<br>3. Rhoi cymorth yn y labordy i brosiectau myfyrwyr, ynghyd â myfyrwyr sydd ar leoliad gwaith.<br>4. Diweddaru a chynnal gweithdrefnau gweithredu safonol a dogfennau eraill.<br>5. Gwneud gwaith cynnal a chadw a graddnodi offer yn rheolaidd.<br>6. Sicrhau bod lefelau priodol o stoc yn cael eu cadw yn y labordy. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 7. Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol.<br>8. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>9. Arwain ar wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth gadarn o broffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol. |

| | |
|---|---|
| | 10. Unrhyw ddyletswyddau eraill y gellir eu disgwyl o fewn diffiniad y radd yn unol â chyfarwyddyd Pennaeth yr Ysgol neu gynrychiolydd a enwebwyd.<br>11. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o'ch gweithgareddau beunyddiol i sicrhau bod arferion gwaith yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |
| **Gwerthoedd y Gwasanaethau Proffesiynol** | Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn ôl cyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd - Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol - a disgwylir i bawb ddangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg gwneud cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br><br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein creadigrwydd, ein gonestrwydd a'n doethineb i ddarparu gwasanaethau arloesol, effeithiol ac effeithlon ynghyd ag atebion o safon ardderchog.<br><br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn amgylchedd gweithio rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her, i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br><br>**Rydym yn Ofalgar**<br>Rydym yn derbyn cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddynt a ni yn brofiad personol a chadarnhaol.<br><br>Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym. |
| **Manyleb Person** | **<u>Meini Prawf Hanfodol:</u>**<br><br>**Gwerthoedd:**<br>• Tystiolaeth o ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol<br>• Y gallu i gydweithio mewn amgylchedd o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a pharch i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br>• Tystiolaeth o ymagwedd ofalgar at eich holl gwsmeriaid, gan sicrhau profiad personol a chadarnhaol.<br><br>**Cymwysterau:**<br><br>Wedi'ch addysgu hyd at lefel TGAU, gyda gradd C neu well mewn Gwyddoniaeth, Mathemateg a Saesneg.<br><br>**Profiad:**<br>• Profiad o dechnegau labordy cyffredinol<br>• Tystiolaeth o'r gallu i reoli ei ymchwil a gweinyddu gweithgareddau er mwyn bodloni amserlenni tynn<br>• Gallu profedig i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm<br>• Gallu profedig i lunio adroddiadau a chyflwyno'n effeithiol<br><br>**Gwybodaeth a Sgiliau:**<br>• Tystiolaeth o sgiliau labordy da<br>• Gwybodaeth am dreialon clinigol |

| | |
|---|---|
| | • Y gallu i feithrin a chynnal perthnasoedd gweithio effeithiol â phartneriaid allanol megis cydweithredwyr yn y GIG yn lleol<br>• Sgiliau TG ardderchog gan gynnwys Microsoft Office a phecynnau ystadegol<br>• Sgiliau cyfathrebu ardderchog yn ysgrifenedig ac ar lafar<br>• Parodrwydd i deithio i gyfarfodydd mewn lleoliadau gwahanol ledled Cymru, y DU a thramor o bosibl<br><br>**Yr Iaith Gymraeg:**<br>Lefel 1 – 'ychydig' (ni fydd angen i chi allu siarad Cymraeg i gyflwyno cais am y rôl hon)<br>*e.e. ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau. Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da). Gallu defnyddio/dysgu geiriau ac ymadroddion pob dydd sylfaenol (diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.*<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Yr Athro Cathy Thornton c.a.thornton@abertawe.ac.uk |